

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn Nos Iau 14 eg o Hydref 2021

Agenda

1. Presennol:
2. Ymddiheuriadau:
3. Datgan buddiant
4. Derbyn cofnodion 9fed o Fedi 2021
5. Materion yn codi o'r cofnodion
6. Materion ariannol
 - Cyfarfod IBC 29af o Fedi 2021
 - i. Mantolen ariannol
 - ii. Ceisiadau Nawdd
 - iii. Taliadau
 - iv. Archwilwyr Allannol
7. Logo newydd
8. Cynllunio

C21/0949/25/DT Belmont Ffordd Menai, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2LS
Estyniadau i'r modurdy er mwyn galluogi creu gofod swyddfa ar gyfer defnydd yr ymgeisydd

C21/0927/25/LL Ysbyty Gwynedd, Bangor, LL57 2PW Lleoli adeilad symudol dros dro ar gyfer defnydd yr RVS am 2 mlynedd.
9. Materion y Clerc
 - Cais Nawdd Ty Gobaith Wedi caniatáu ag anfon Mehefin eleni
 - Cynllun Busnes Datblygiad
 - Septic Tanc Diweddariad
 - Blodau Gwyllt
 - Cyfarfodydd i'r dyfodol
 - Cofrestr Risg
 - Cae Chwarae mae Gwynedd yn awyddus i ni gymeryd cyfrifoldeb drostynt
 - Ardal ni 2035 Ymatebion os oes
10. Materion y Cynghorwyr
 - Cyng D W Jones Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – Ffiniau etholiadol
 - Cyng B Jones Cyngor Conwy yn gwrthod caniatad i Awel y Mor
 - Cyng B Jones Unllais – Jetskis
 - Cyng J Griffiths Datblygiadau / carafan wrth Ion Penhower Caerhun
 - Cyng M Baines Swyddog Diogelwch Cymunedol

Cofnodion Cyngor Cymuned Pentir

Cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn Nos Iau 09fed o Fedi 2021

1. **Presennol:** Cyngorwyr M. Lynch; E. Jones; M. Baines; J. Pierce; J. Griffiths; B. Jones; J. Lewis; L. A. James; a'r Clerc E Jones

2. Ymddiheuriadau:

Cyngorwyr D. Jones-Morris; D W Jones; H Griffiths; T A Williams;

Cadeirwyd y cyfarfod yn absennoldeb y Cadeirydd gan yr Is-Gadeirydd y Cyng M Lynch
Yn ei sylwadau agoriadol cyfeiriodd at gais oedd wedi ei roi ymlaen gan gyngorydd yn gofyn i bawb oedd angen siarad i ddatgan hynny drwy godi llaw neu law rhithiol ag y byddai hi'n gwahodd rhai i siarad

Byddai gwneud hynny yn lleihau achosion o siarad ar draws – yn anfwriadol gan amlaf – ag yn ei gwneud yn anodd dilyn y drafodaeth

Cytunwyd i wneud hynny

3. Datgan buddiant

Esbonwyd eto y broses ynglyn a datgan buddiant yn rhithiol.

Datgan ar lafar i'r Clerc allu ei gofnodi ag i'r Cyngorydd wedyn anfon ffurflen wedi ei llofnodi

Datganiad gan Cyng'wyr L A James; J Pierce; E Jones; a M Baines eu bod yn rhan o bwyllgor

Canolfan Penrhos

4. **Derbyn cofnodion** 08fed o Orffennaf 2021 – Derbynydd y cofnodion fel rhai cywir

Cyng J. Griffiths yn cynnig a Cyng L A. James yn eilio

5. **Materion yn Codi o'r cofnodion**

Dim nad oedd wedi eu cynnwys o fewn yr agenda

6. Materion ariannol

- Cyfarfod IBC 1af o Fedi 2021

'Roedd y

fantolen ariannol misol wedi ei rhannu'n electronig yn dangos gwariant a derbyniadau

Gorffennaf ag Awst ag yn dangos yn dilyn derbyn ail ran o'r praesept fod swm o £57,033.24 yn

y cyfrif Cyfredol a £35,038.51 yn y cyfrif cadw. Nodwyd ein bod wedi holi Adran Eiddo

Cyngor Gwynedd ynglyn a faint yw ein amcan-gost am eitemau ychwanegol sydd wedi eu

gosod yn y Ganolfan newydd hyd yma ond nad oedd hynny ond oddeutu £8.5K ond heb

gynnwys y wal – symudol ychwanegol oedd ag amcanbris o £10K.

Wrth symud i mewn yn Mawrth 2022 byddai angen setlo hefo Gwynedd.

Mynegwyd pryder ynglyn a rhai elfennau o'r gwaith allannol sy'n ymddangos nad ydi rhai

llecynnau gwyrdd addawyd ar y cychwyn bellach ar gael a Clwb y Garnedd wedi bod yn

bryderus ynglyn mynediad wrth gerdded heb orfod mynd rownd y cefn.

Gofynwyd i'r Clerc gysylltu a'r Adran Eiddo i drefnu cyfarfod safle mor fuan a phosib.

- **Ceisiadau Nawdd**

Esbonwyd mae nid cais am nawdd oedd wedi ei dderbyn o Hosbis Dewi Sant ond yn hytrach gais i ddarganfod 100 o 'ffrindiau' fyddai yn gwirfoddoli i godi arian.

Mae y cais hwnnw wedi ei roi i fyny ar ein gwefan a tudalen Facebook

- i. Llais Ogwan Cais wedi dod i law ond hen fantolen – Clerc i gysylltu am fantolen gyfredol

- **Taliadau** Cadarhau talu y cyfan

- **Archwilwyr Allannol** Ymateb wedi dod yn holi am fanylion oedd eisioes wedi eu anfon ag wedyn ymddiheuriad fod peth dryswch wedi digwydd. **Clerc eisioes wedi**

ymateb

7. Logo newydd

Oherwydd y tymor gwyliau ychwyg iawn o ddiweddarau oedd wedi bod hefo'r Ddylunwraig a'r

Cyng L A James am drafod ymhellach hefo hi rwan am scopio'r gwaith a threfnu lansiad

8. Cynllunio

C21/0550/25/HT Penrhos Road, Goetre Uchaf, Penrhosgarnedd, Bangor, LL57 2NB Codi polyn 15.0m o uchder a chyfarpar offer. **Gwrthwynebu ar sail Lleoliad ag uchder**

9. Materion y Clerc

- **Cynllun Busnes** Trafodwyd yr angen i ddiweddarau y Cynllun a chymeryd i ystyrieath Agenda Gwyrdd y Llywodreath ynghyd a'n dyletswydd tuag at lesiant ein trigolion a chenedlaethau'r dyfodol **Trafod ar Agenda IBC Fedi a dod yn ol i'r Cyngor Llawn yn Hydref**
- **Septic Tanc Diweddariad** Nemor ddim wedi digwydd dros y cyfnod gwyliau
- **Mast G5 Goetre/Ysbyty Gwynedd Clerc eisioes wedi anfon gwrthwynebiad**
- **Cofrestr Risg**
 - **Y Gofrestr wedi ei anfon a rhai yn ymddiheuro nad oeddent wedi cael cyfle dros Awst i ymgymeryd a'r dasg o geisio diwallu/lleihau risgiau penodol e.e Iaith a GDPR**
 - **Adroddiad RoSPA Cae chwarae Caerhun**
 - Tra nad oedd unrhyw risg uchel wedi ei adnabod mae rhai o'r risgiau isel wedi eu adnabod ers sawl blwyddyn bellach. Rhai isel newydd wedi eu nodi fel angen symud y bwrdd picnic oddiwrth y ffens derfyn ag angen rhybuddion i beidio swingio ar yr offer pel-fasged na gwisgo modrwyau a.y.y.b.
 - **Llythyr Alwyn Williams** Rhanwyd yr e-bost oedd y Clerc wedi ei dderbyn gan Mr Williams ynglyn a sbwriel oedd, yn ol ei honiad, yn cael ei chwythu i fón ei wrychoedd gan y tywydd a chan ein contractwr. Cytunwyd i archebu
 - **Bin Sbwriel i'r cae chwarae a'i osod wrth y giat**
Yn ychwanegol cytunwyd i archebu
 - **Bin Sbwriel i'r Fynwent Newydd**
Gan fod bellach oddeutu 20 o feddi yno a dim bin cyfleus wrth ymyl
 - **Cae Chwarae mae Gwynedd yn awyddus i ni gymeryd cyfrifoldeb drostynt**
Tra fod y Cyngor wedi cytuno mewn egwyddor i weithio gyda Cyngor Gwynedd ar y mater yma nid oedd trafodaethau pellach i amlinnellu yn union beth ddisgwylir gan Cyngor Pentir Clerc i wahodd eglurder o Wynedd a/neu wahodd rhywun o wynedd i esbonio

10. Materion y Cyngorwyr

- **Cyng E Jones Diweddariad cofrestru Llwybr Treborth** Popeth wedi ei anfon yn briodol er fod y perchennog yn honni na chafodd yr hysbyseb o'n bwriad. Bellach rhybudd wedi ei ail-anfon ato.
- **Cyng B Jones Cysgodfan Goleufryn** Yn absenoldeb y Cyng D Jones-Morris ag yn dilyn gosod ½ cysgodfan newydd wrth Ysgol y faenol lle mae'r droed-ffrodd yn gulach codwyd cais am gael cysgodfan bws wrth Goleufryn. Mi fu cais a'r blaen pan honwyd fod y llwybr troed yno rhy gul. **Clerc i gysylltu a Gwynedd**
- **Cyng J Griffiths Pont Felinhen – Llawer iawn o graffiti ar ei thu mewn Clerc i gysylltu a Gwynedd**
- **Cyng M Baines** Esbonwyd fod y Gysgodfan gerrig sydd o fewn ffin Cyngor Pentir ond wastad wedi cael ei llau gan Cyngor Dinas Bangor bellach yn cael ei ystyried ar rhwydwaith gwasanaeth bysus T2 ag felly yn debygol iawn o gael ei uwchraddio yn ogystal a Cysgodfan Nant y Mownt. Tybed os oedd hyn yn gyfle auraidd i ofyn am gysgodfan o'r fath yn mynd i gyfeiriad arall yn Nanty Mownt **Clerc i gysylltu a Gwynedd**
- **Cyng M Baines** Clwb Peldroed Iau Penrhos wedi bod yn holi Cyngor Dinas Bangor am nawdd tuag at Diffib ag wedi eu cyfeirio at Cyngor Pentir. **Awgrymu iddynt wneud cais swyddogol at y Clerc i'w godi yn yr IBC nesaf**

